

Profi, Olrhain a Diogelu

Beth i'w wneud os yw gweithiwr yn dangos symptomau a/neu'n profi'n bositif am COVID-19

Canllawiau i Reolwyr

Gorffennaf 2020



Cyflwyniad

1. Lanswyd strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu Llywodraeth Cymru ar 1 Mehefin 2020. Menter amddiffyn iechyd genedlaethol yw hon i geisio sicrhau nad yw Covid 19 yn lledaenu yn ein cymuned. Yr egwyddorion sylfaenol yw, os bydd unigolyn yn profi'n bositif am covid-19, bydd aelod o'r tîm olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r unigolyn i gael gwybod pwy y bu'r unigolyn mewn cysylltiad â hwy, yna, bydd y tîm olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r unigolion hynny i asesu eu risg a'u cyngori i hunanynysu am 14 diwrnod.
2. Nod y tîm olrhain cysylltiadau rhanbarthol yw cysylltu â phawb o fewn 48 awr, ond mae hyn yn dibynnu ar ba mor rhwydd yw hi i gysylltu â'r bobl a enwir a chapasi't'r tîm wrth i'r fenter ehangu.
3. Fel cyflogwr mawr, rydym yn gwybod bod covid-19 wedi effeithio ar weithwyr ac mae rhai wedi profi'n bositif. Gyda'r strategaeth Profi Olrhain Diogelu bellach ar waith, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r holl gyflogeion a gweithwyr gydymffurfio â'r Cynllun i sicrhau bod y feirws yn lledaenu cyn lleied â phosibl yn y gweithle. Rydym yn hyderus y bydd ein gweithwyr yn cydymffurfio â hyn a diogelu iechyd eu hunain, eu cydweithwyr ac aelodau eraill eu cartref drwy hunanynysu pan fo angen neu pan ofynnir iddynt wneud hynny. Gallai methu â gwneud hyn arwain at gamau disgyblu yn y pen draw.

Rôl y Rheolwr

4. Os yw gweithiwr yn datblygu o leiaf 1 symptom coroneafeirws:

- peswch parhaus newydd;
- tymheredd uchel; neu
- colli synnwyr arogli neu flas,

rhaid i'r rheolwr sicrhau bod y gweithiwr yn gadael y gweithle ac yn dilyn [canllawiau hunanynysu](#).

5. Dylid cynghori'r gweithiwr ac aelodau eraill o'r cartref i [gael prawf o fewn y 5 diwrnod cyntaf o ddatblygu symptomau](#), gan mai dyma pryd y mae'r prawf yn fwyaf effeithiol.
6. Cyn gynted ag y mae'r gweithiwr wedi gadael, ffoniwch y gwasanaethau glanhau drwy ffonio ar 01267 246511 Dywedwch wrth y gwasanaethau glanhau lle mae'r gweithiwr wedi bod yn gweithio yn y swyddfa.

7. Os yw canlyniad y prawf yn negyddol, does dim angen i'r gweithiwr nac aelodau eraill o'r cartref gymryd unrhyw gamau pellach, ac nid yw'n ofynnol iddynt hunanynysu mwyach.
8. Os yw canlyniad y prawf yn bositif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r gweithiwr ar ran gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.
9. Gofynnir i'r gweithiwr ddarparu manylion cyswllt y rheiny y bu mewn cysylltiad agos â hwy ar unrhyw achlysur yn ystod cyfnod sy'n dechrau **hyd at 2 ddiwrnod** cyn iddo ddechrau cael symptomau, gan gynnwys:

- rhywun y mae wedi cael sgwrs wyneb yn wyneb ag ef o fewn 1 metr, wedi cael cyswllt corfforol croen-i-groen, wedi pesychu arno, neu wedi bod mewn math eraill o gyswllt o fewn 1 metr am 1 munud neu fwy;
- rhywun o fewn 2 fetr am fwy na 15 munud;
- rhywun y mae wedi teithio yn ei gwmni mewn cerbyd - neu eistedd yn agos ato ar drafnidiaeth gyhoeddus

10. Fel rheolwr, **os ydych chi'n ymwybodol fod y gweithiwr sydd wedi profi'n bositif wedi bod mewn cysylltiad agos** at weithwyr eraill yn y gweithle yn un o'r tair sefyllfa a ddisgrifir uchod, ni ddylech aros i'r swyddog olrhain cysylltiadau gysylltu â chi i gynghori'r gweithwyr eraill hynny i hunanynysu.
11. Siaradwch â'r gweithwyr yr effeithir arnynt ar unwaith a'u cynghori i hunanynysu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth a rhoi sicrwydd iddynt bydd y swyddog olrhain cysylltiadau mewn cysylltiad â hwy cyn bo hir. (Os cynghorir y gweithiwr/gweithwyr bod modd dychwelyd i'r gwaith, yn dilyn cyngor gan y Swyddog Olrhain Cysylltiadau, yna, mae modd gwneud hynny).
12. Mae'n bosibl y bydd hyn yn creu rhywfaint o bryder a dylech roi sicrwydd unwaith yn rhagor y bydd y swyddog olrhain cysylltiadau yn darparu cyngor maes o law. Ond, os ydynt yn dangos symptomau ac yn teimlo'n bryderus, dylent gysylltu â GIG Cymru 111 i gael cyngor. Gall gweithwyr hefyd gyfeirio'i hunain am gymorth llesiant trwy lechyd Galwedigaethol.
13. Ni ddylech ddatgelu pwy yw'r gweithiwr sydd wedi profi'n bositif i'r gweithwyr y bu mewn cysylltiad â nhw neu unrhyw aelod arall o staff heb ganiatâd y gweithiwr. Er y gall hyn fod yn amlwg mewn timau bychain ac efallai y bydd gweithwyr yn dyfalu pwy yw'r gweithiwr sydd wedi profi'n bositif, mae'n rhaid i'r rheolwr barchu dymuniad y gweithiwr sydd wedi profi'n bositif am barhau'n anhysbys a chadw cyfrinachedd.

14. Pan fydd y Swyddog Orlhain Cysylltiadau yn cysylltu â'r gweithwyr, byddant yn asesu'r risg trwy ofyn ystod o gwestiynau lle cant eu cynghorir i hunanynysu neu o bosib, dychwelyd i'r gwaith. Bydd y gweithiwr yn derbyn cyngor ac arweiniad ac ni fydd yn cael ei gynghori i gael ei brofi oni bai ei fod ef ei hun yn dangos symptomau. Dylai'r gweithiwr gynghori ei reolwr ynghylch canlyniad y drafodaeth gyda'r Swyddog Orlhain Cysylltiadau.
15. Fel arfer, ni ofynnir i aelodau eraill o'r cartref i hunanynysu, ond dylent ddilyn y [canllawiau cadw pellter cymdeithasol](#) ac osgoi cysylltiad â'r unigolyn sy'n hunanynysu gartref.
16. Dylai rheolwyr gadw mewn cysylltiad â gweithwyr sy'n hunanynysu er mwyn darparu cefnogaeth a chynghor iddynt yn ôl yr angen ac i hwyluso'r broses o ddychwelyd i'r gwaith ar ddiwedd y cyfnod hunanynysu.

Gall Timau Adnoddau Dynol a'r Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr ddarparu cefnogaeth a chynghor pellach.